Cyffordd Llandudno
Cynigion Adfywio ar gyfer y Dyfodol

Rhagfyr 2009

www.conwy.gov.uk

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Cyffordd Llandudno - Datganiad Gweledigaeth

1 Pwrpas

1.1 Pwrpas y ddogfen hon yw disgrifio'r prif flaenoriaethau i gefnogi adfywiad Cyffordd Llandudno. Bydd yn helpu darparu gwybodaeth a chyd-destun ar gyfer rhaglen o brosiectau a fydd, gyda'i gilydd, yn cefnogi adfywiad cynaliadwy yn yr ardal.

2 Cefndir

2.1 Mae pwysigrwydd Cyffordd Llandudno fel canolfan gyflogaeth yn deillio o'i ddatblygiad hanesyddol fel prif gyffordd rheilffordd a chyfleuster delio a nwyddau. Heddiw, mae'r ardal yn dal i gael ei hystyried yn ganolbwynt strategol o bwys o ran twf economaidd. Mae nifer o ymrwymiadau datblygu a chynlluniau ar gyfer buddsoddi yn ac o gwmpas yr ardal sy'n cyflwyno heriau a chyfleoedd newydd i adfywio'r dref.

2.2 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) a Llywodraeth Cynulliad Cymru (WAG), yn cydnabod pwysigrwydd Cyffordd Llandudno, ac mae Cynllun Corfforaethol Conwy 2008-12 a Chynllun Gofodol Cymru yn nodi eu hymrwymiad i sicrhau cymaint â phosibl o ddatblygiad yn yr ardal. Mae Cyffordd Llandudno yn borth allweddol ac yn rhan o ganolbwynt Gogledd Cymru. Mae'n cynnwys Conwy, Llandudno a Bae Colwyn gan gysylltu Gogledd Ddwyrain Cymru a Gogledd Orllewin Cymru, ac mae'n cael ei gydnabod fel cymhellwr economaidd rhanbarthol allweddol.

2.3 I gael gwell dealltwriaeth o rôl bresennol Cyffordd Llandudno a'i rôl i'r dyfodol, yng nghyd-destun Conwy a'r rhanbarth ehangach, mae CBSC a WAG wedi comisiynu prif gynllun ar gyfer yr ardal, a gafodd ei gwblhau ym mis Mai 2009. Helpodd y gweithdai cyfranogion a'r ymgynghoriad cyhoeddus yn 2008, ddarparu gwybodaeth ar gyfer y cynllun a'r weledigaeth. Roedd teimlad cryf fod angen creu hunaniaeth i Gyffordd Llandudno, sydd wedi'i grisialu yn y weledigaeth a grëwyd.

'Bydd Cyffordd Llandudno yn dod yn gymuned unigryw ac yn ganolbwynt economaidd allweddol yng nghalon Gogledd Cymru'

2.4 Mae'r prif gynllun yn nodi themâu allweddol ar gyfer darparu'r weledigaeth:

- Economi
- Creu Lle
- Cludiant ac Isadeiledd
- Cymuned, yr Iaith Gymraeg a Diwylliant
- Cynaladwyedd a'r Amgylchedd

3 Cyfleoedd Datblygu

3.1 Mae'r prif gynllun ar gyfer Cyffordd Llandudno wedi helpu darparu gwybodaeth ar gyfer blaenoriaethau datblygu i'r ardal a bydd angen i GBSC weithio gyda'i bartneriaid er mwyn darparu'r weledigaeth.

3.2 Rhestrir isod nifer o brosiectau, syniadau datblygu a chyfleoedd a allai ddod a manteision tymor hir sylweddol i'r dre.

3.3 Gwella a Datblygu Conwy Road

Mae cyfle i ailsefydlu a chryfhau rôl a swyddogaeth Conwy Road, gan gynnig amrywiaeth eang o gyfleusterau i drigolion lleol, gweithwyr ac ymwelwyr i'r ardal. Mae symud swyddfeydd rhanbarthol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ddatblygiad o bwys a fydd yn cael effaith bositif ar economi'r dref. Bydd y cannoedd o swyddi fydd yn cael eu symud i'r ardal a'r posibilrwydd o fusnesau newydd yn cael eu sefydlu a rhai eraill yn symud i'r ardal gan fanteisio ar fod yn agos at sefydliad WAG, gan gynnig cyfleoedd swyddi a manteision economaidd lleol.

3.4 Gellir gwneud y defnydd gorau o'r manteision drwy greu amgylchedd gwell a mwy croesawgar a fydd yn annog pobl i dreulio mwy o amser ar Conwy Road gan greu mwy o fasnach a gweithgarwch. Gellir cyflawni hyn drwy nifer o gynlluniau - gwella eiddo masnachol presennol, gwella strydwedd, gwelliannau amgylcheddol ac ystyried cyfleoedd i greu gofod agored a fydd yn ganolbwynt; gwelliannau traffig a pharcio; annog cyfleoedd buddsoddi a gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a datblygwyr i ddenu datblygiadau newydd i Barc Busnes Point; ac ailddatblygu dwyrain Conwy Road a bydd y cyfan yn helpu creu tref unigryw a bywiog.

3.5 Datblygu Gorllewin Cyffordd Llandudno

Mae'r posibilrwydd o ail ddatblygu'r hen Waith Brics ar safleoedd cysylltiedig yn cynnig cyfle cyffrous i wella cyfleoedd adwerthu, hamdden a chyflogaeth er lles y gymuned leol ac ehangach a gallai wneud cyfraniad sylweddol at economi'r rhanbarth. Mae datblygu'r ardal hon â'r potensial ychwanegol i gefnogi economi'r diwydiant ymwelwyr, gan ddarparu mynedfa allweddol i Ogledd Cymru, Eryri, Llandudno, Conwy a Dyffryn Conwy.

3.6 Byddai ehangu Canolfan Fusnes Conwy yn galluogi ei ddatblygu ymhellach fel canolfan fusnes a hyfforddiant. Byddai'r ehangiad yn creu darpariaeth ychwanegol i annog a chefnogi mentrau newydd a rhai sydd eisoes yn bodoli yn lleol.

3.7 Byddai gwell mynediad rhwng yr ardal hon a Chyffordd Llandudno yn rhan ganolog o'r datblygiad.

3.8 Gwella Cyfleusterau Cymunedol

Mae ychydig o gyfleusterau cymunedol wedi'u gwasgaru ar draws ardaloedd preswyl y dref. Nid yw eu natur, lleoliad a'u cynaladwyedd i'r dyfodol yn sicr.

3.9 Gall gwell cyfleusterau cymunedol gefnogi cymuned gryfach drwy glystyru amrediad o wasanaethau ar gyfer pobl o wahanol oed, grwpiau defnyddwyr a diddordebau. Bydd barn pobl leol a chefnogi mentrau cymunedol yn bwysig er mwyn gwella cynaladwyedd cyfleusterau presennol a phenderfynu ar natur a lleoliad y rhai newydd. Byddai hefyd angen i'r Cyngor weithio gyda phartneriaid yn y sector iechyd i ystyried sut i wella cyfleusterau gofal iechyd.

3.10 **Gwella Cludiant a Mynediad**

Mae gan Gyffordd Llandudno nifer o nodweddion cludiant positif sy'n ymwneud â'i agosrwydd at y rhwydwaith ffyrdd, system cludiant cyhoeddus da, gan gynnwys cysylltiadau rheilffordd a bws lleol, ac yn cysylltu â llwybr beicio Cenedlaethol sy'n mynd drwy'r ardal.

3.11 Er hynny, mae'r rheilffordd a'r A55 yn rhwystr sylweddol sy'n atal symudiad cerddwyr ac yn golygu bod nifer cyfyngedig o fannau croesi a llwybrau llai deniadol o amgylch y prif gyffyrdd. Mae hyn yn cael ei ail-greu ar raddfa lai drwy'r ardal breswyl, ac mae'r dewis o lwybrau sy'n rhoi mynediad at gyfleusterau lleol yn gyfyngedig.

3.12 I sicrhau bod lefelau hawdd ac ardderchog o fynediad o amgylch y cyfleusterau lleol a'r ardal ehangach, bydd angen ystyried cyfleoedd i wella'r dewis o lwybrau cerdded a beicio a'r ddarpariaeth ar gyfer parcio ceir a beiciau.

3.13 Bydd gwelliannau i'r ddarpariaeth cludiant cyhoeddus, yn enwedig mewn perthynas â datblygiadau newydd, yn hanfodol er mwyn annog symudiad oddi wrth y defnydd o geir preifat a sefydlu dewisiadau teithio cynaliadwy.

3.14 Bydd darparu cysylltiadau gwella mwy diogel i gerddwyr rhwng y cyfleusterau masnachu, hamdden, diwylliannol a busnes yn rhan ganolog o Ddatblygiad Cyffordd Llandudno gan gynnwys:

- Parc Busnes Point
- Conwy Road
- Y cyfleusterau masnachu a hamdden yng ngorllewin Cyffordd Llandudno
- Y Foryd, Cob Conwy ac ymlaen tuag at y Safle Treftadaeth y Byd

Bydd hyn yn annog llif cerddwyr rhwng y gwahanol ardaloedd hyn a bydd yn hanfodol o ran gwneud y defnydd gorau o'r cynnydd posibl mewn gwariant yn yr ardal.

3.15 **Moderneiddio Ysgolion Cynradd**

Ar hyn o bryd mae gan Gyffordd Llandudno 2 ysgol gynradd, ac nid oes un ohonynt yn cyrraedd y safonau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o safbwynt cyfleusterau. Mae dewisiadau i wella cyfleusterau ysgolion cynradd yr ardal yn cael eu hystyried ar hyn o bryd fel rhan o'r prosiect Moderneiddio Ysgolion Cynradd.

3.16 **Adfywio ac Adnewyddu Cymdogaethau Preswyl**

Mae angen buddsoddi ar gyflwr ffisegol yr eiddo cymdeithasol presennol i wella'r amgylchedd ac ansawdd bywyd. Er mwyn gwella safon cartrefi i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2012, mae gan Gymdeithasau Tai rhaglenni gwella ar waith a byddant yn uwchraddio cartrefi er mwyn cyrraedd y safon hon a byddant yn parhau i sicrhau bod bob cartref yn cael eu cadw at y safon hon yn y dyfodol.

3.17 Fel rhan o becyn datblygu Conwy Road, dylid ystyried cyfleoedd i wella golwg allanol rhai eiddo gyda pherchnogion preifat mewn ardaloedd yn agos at Conwy Road. Mae gwaith gwella drwy gynlluniau gwella blaen eiddo ac amgáu fel arfer yn cael eu cyflawni fel rhan o raglen adnewyddu tai. Bydd angen ystyried cynnal Asesiad Adfywio Cymunedol a fyddai'n cadarnhau a yw'r ardal yn gymwys i gael ei ddynodi'n Ardal Adnewyddu Tai, os bydd yr adnoddau gofynnol ar gael.

3.18 Bydd darpariaeth tai newydd yn yr ardal yn cyfrannu at hyrwyddo ffordd o fyw cynaliadwy ac yn annog y boblogaeth iau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol i aros yn yr ardal i weithio.

3.19 Cafwyd cydnabyddiaeth fod gofodau gwyrdd agored yn brin yn yr ardal a bod eu hansawdd yn isel ar y cyfan. Gall gofodau gwyrdd gynnig cyfleoedd i wella cymdogaethau, gan ddarparu gwahanol swyddogaethau fel bywyd gwyllt, hamdden a phrofiadau diwylliannol. Bydd angen ystyried datblygu gofodau gwyrdd newydd a gwella rhai presennol, a gall hyn helpu datblygu delwedd ac ansawdd amgylcheddol yr ardal a gall gyfrannu at wella ansawdd bywyd cymunedol.

3.20 **Y Posibilrwydd o Ddefnyddio Trenau Nwyddau**
I fanteisio ar ei safle strategol ar rwydwaith Gogledd Cymru a'i agosrwydd at yr A55, bydd angen ystyried cyfleoedd i greu terfynell ar gyfer trenau nwyddau yng Nghyffordd Llandudno, a fyddai'n creu cyflogaeth a manteision economaidd ar gyfer yr ardal. Nodwyd y cyfle hwn yn Strategaeth Cludo Nwyddau Gogledd Cymru.

4 Y Camau Nesaf

4.1 Wrth i'r syniadau a'r cyfleoedd unigol yn y ddogfen gael eu datblygu'n fwy manwl, byddwn yn ymgynghori gyda chymunedau Cyffordd Llandudno.

Manylion Cyswllt

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.conwy.gov.uk/cyfforddllandudno neu anfonwch
e-bost at: cyfforddllandudno@conwy.gov.uk
ffôn: 01492 576128

Gwybodaeth Gefndir Ynglŷn â Chyffordd Llandudno

Mae Cyffordd Llandudno yn dref fechan gyda phoblogaeth o 6,400, yng ngogledd Cymru, dim ond 5 milltir i'r de o Landudno a'r arfordir ac mae'n rhan o Fwrdeistref Sirol Conwy. Mae'n ffinio â Deganwy ac yn gorwedd i'r dwyrain, dros yr Afon Conwy, o dref gaerog Conwy, sydd wedi'i ddynodi'n Safle Treftadaeth y Byd UNESCO. Y rheswm dros ddatblygiad Cyffordd Llandudno oedd sefydlu'r rheilffordd yn y rhan hon o Gymru yn ystod y cyfnod Fictoraidd.

Cafodd yr orsaf wreiddiol, (oedd wedi'i lleoli i'r gorllewin o'r adeilad presennol) ei chodi yn 1858 i wasanaethu'r lein gangen i Landudno. Cafodd ail gangen ei godi yn 1863 - Rheilffordd Dyffryn Conwy - a oedd yn mynd i'r de i Fetws-y-Coed ac yn ddiweddarach i Ffestiniog a chafodd ei adeiladu gan gwmni Conway and Llanrwst Railway a ddaeth yn rhan o'r London and North Western Railway Company (LNWR) yn 1867. Codwyd Pier Deganwy gan y London and North Western Railway Company yn yr 1880au a chafodd ei ddefnyddio ar gyfer cymysgedd o fewnforio ac allforio yn enwedig llechi o'r chwareli llechi mewndirol yn Ffestiniog.

Mae Rheilffordd Dyffryn Conwy'n dilyn dyffryn yr Afon Conwy i Lanrwst (lle'r oedd yn diweddu i ddechrau) a Betws-y-Coed (lle'r oedd yn diweddu yn ddiweddarach). Yna mae'n dilyn Dyffryn Lledr, gyda thwnnel dwy filltir o hyd, sy'n diweddu ym Mlaenau Ffestiniog lle gall teithwyr ymuno â Rheilffordd Ffestiniog.

Yn 1897, mewn ymateb i dwf cryf mewn traffig teithwyr a nwyddau, agorwyd yr orsaf bresennol ar safle llawer mwy, yn cynnig chwe lein trwodd gyda dau blatfform ar bob pen. Roedd yr orsaf yn ffinio ar y depo grym symudol. Mae'r rhain, a'r iardiau nwyddau cyfagos, wedi'u hailddatblygu ers hynny, gan wneud lle ar gyfer parc busnes, siopau bwyd cyflym, canolfan hamdden, sinema aml-sgrin Cineworld, ac archfarchnad Tesco.

Yn ogystal â'r rheilffordd, mae Cyffordd Llandudno hefyd wedi bod yn gartref i nifer o ddiwydiannau eraill, y mwyaf o'r rhain oedd ffatrïoedd Hotpoint. Roeddynt yn darparu cyflogaeth i'r ardal ac yn annog datblygiad diwydiannau eraill. Yn anffodus, caewyd y ffatrïoedd hyn a newidiodd cyfleoedd cyflogaeth lleol yn sylweddol yn chwarter olaf yr 20fed Ganrif, gyda'r ffatrïoedd a'r depos rheilffordd yn diflannu.

Heddiw, y prif ddefnydd tir yw tai, i raddau helaeth ar stadau modern ar lonydd pengaead. Ychydig iawn o gyfleusterau cymunedol sydd ar gael yn y cymdogaethau preswyl hyn. Mae adwerthu lleol wedi'i glystyru ar hyd Conwy Road, sydd yn ffurfio prif stryd y dref. Ar ben mwyaf gorllewinol yr ardal, o amgylch Glan y Môr Road, mae ardal defnydd cymysg sy'n cynnwys tai, cyflogaeth, gwasanaeth, a defnydd adwerthu. I'r de o'r rheilffordd, mae'r prif ardaloedd cyflogaeth a diwydiannol.